**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

27 Tachwedd 2024

Annwyl Elin,

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru): amserlen graffu

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd 2024 yn gofyn am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar amserlen arfaethedig y gwaith o graffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen arfaethedig yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2024. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r dyddiad cau o ran yr adroddiad Cyfnod 1, sef 4 Ebrill 2025 a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2, sef 13 Mehefin 2025.

Fel yr wyf wedi'i ddweud mewn gohebiaeth flaenorol â'r Pwyllgor Busnes, mae llwyth gwaith deddfwriaethol y Pwyllgor am weddill cyfnod y Senedd hon yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno biliau ar Fasnachfreinio Bysiau ac ar Lywodraethu Amgylcheddol cyn diwedd cyfnod y Senedd hon. Byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes wneud popeth o fewn ei allu i osgoi sefyllfa lle gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar fwy nag un Bil ar yr un pryd. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i atgoffa'r Pwyllgor Busnes y bydd y llwyth gwaith deddfwriaethol yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Pwyllgor i graffu ar bolisi yn ystod gweddill cyfnod y Senedd hon.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.